# Gwerthusiad o'r ffordd y mae gwasanaethau cyfnewid fideo brys yn cael eu rheoleiddio

Ôl-werthusiad o effaith rheoleiddio gwasanaethau cyfnewid fideo brys ar ddefnyddwyr byddar Iaith Arwyddion Prydain

Cyhoeddwyd 30 Mai 2025

# 1. Trosolwg

Mae’r ddogfen hon yn rhan o raglen ôl-werthuso Ofcom, sy’n ceisio meithrin dealltwriaeth o effaith ein gwaith rheoleiddio ar ganlyniadau defnyddwyr a chanlyniadau masnachol. Mae’r rhaglen hon yn rhan bwysig o’r gwaith rydym ni’n ei wneud i sicrhau ein bod yn cyflawni ar ran pobl a busnesau yn y DU.

Mae’r adroddiad gwerthuso hwn yn edrych ar reoleiddio gwasanaethau cyfnewid fideo brys (EVR), fel y nodir yn Amodau Cyffredinol C5.11-C5.12, a ddaeth yn weithredol ar 17 Mehefin 2022. Mae rheoleiddio gwasanaethau cyfnewid fideo brys, ymhlith pethau eraill, yn ei gwneud hi’n ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau teleffoni symudol a sefydlog, a darparwyr gwasanaethau mynediad i’r rhyngrwyd (cyfeirir atynt fel “darparwyr rheoleiddiedig”) i ddarparu, neu fod yn rhan o gontract i ddarparu, gwasanaethau cyfnewid fideo brys. Amcan polisi allweddol y rheoleiddio hwn oedd sicrhau bod pawb yn cael yr un cyfle i gael gafael ar gyfathrebiadau brys yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys defnyddwyr byddar Iaith Arwyddion Prydain.

Mae darparwyr rheoleiddiedig yn gallu dewis a ydynt am ddarparu’r gwasanaeth cyfnewid fideo brys eu hunain, cymryd rhan mewn contract uniongyrchol gyda darparwr gwasanaeth cyfnewid fideo brys neu gymryd rhan mewn contract gyda sefydliad arall yn ymddwyn fel cyfanwerthwr.

Rhaid i ddarparwyr rheoleiddiedig ddefnyddio gwasanaeth cyfnewid fideo brys sydd wedi ei gymeradwyo gan Ofcom. Mewn datganiad a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2022[1], fe gymeradwyodd Ofcom wasanaeth cyfnewid fideo brys, 999 Iaith Arwyddion Prydain gan Sign Language Interactions’ (SLI[2]). Mae BT yn rhan o gontract gyda SLI, ac ar hyn o bryd mae’n ymddwyn fel darparwr cyfanwerthol gwasanaethau cyfnewid fideo brys ar gyfer pob darparwr rheoleiddiedig.

Mae’r adroddiad gwerthuso hwn yn asesu effaith rheoleiddio gwasanaethau cyfnewid fideo brys ar ddefnyddwyr byddar Iaith Arwyddion Prydain, gan dynnu sylw at amcan polisi'r rheoleiddiad hwn.

### Ein canfyddiadau

Canfuwyd bod gwasanaeth 999 Iaith Arwyddion Prydain wedi ei hyrwyddo ddigon ymysg defnyddwyr byddar Iaith Arwyddion Prydain er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth ac annog pobl i’w ddefnyddio. Fe wnaeth gwasanaeth 999 Iaith Arwyddion Prydain dderbyn 20,000 o alwadau yn 2024, ac ers mis Chwefror 2025, mae ap y gwasanaeth wedi ei lawrlwytho 26,632 o weithiau.

Mae’r dystiolaeth a gasglwyd yn awgrymu fod gwasanaeth 999 Iaith Arwyddion Prydain yn darparu canlyniadau cadarnhaol, ac yn darparu gwasanaeth cwbl allweddol i ddefnyddwyr byddar Iaith Arwyddion Prydain. Rydym ni’n credu bod o leiaf dau berson yn cael eu hachub bob blwyddyn oherwydd bod gwasanaeth 999 Iaith Arwyddion Prydain ar gael iddynt.

Canfuwyd bod sawl her wedi wynebu gwasanaeth 999 Iaith Arwyddion Prydain ers ei sefydlu, gan gynnwys effaith negyddol galwadau niwsans ar amseroedd aros. Rydym ni’n credu bod nifer o'r heriau y mae’r gwasanaeth 999 Iaith Arwyddion Prydain wedi ei wynebu yn unigryw i’w ddyletswyddau fel gwasanaeth cyfnewid fideo brys i ddefnyddwyr byddar Iaith Arwyddion Prydain. Mae’r heriau hyn wedi effeithio ar allu SLI i sicrhau bod galwadau fideo’r gwasanaeth 999 Iaith Arwyddion Prydain yn cael eu hateb yr un mor gyflym â galwadau llais 999, a gellir dadlau bod hynny

[1] Gweler Ofcom, Cyfnewid fideo brys: Penderfyniad i gymeradwyo gwasanaeth arfaethedig Rhyngweithio Iaith Arwyddion, 2022.
[2] Ers hynny, mae SLI wedi cael ei gaffael gan Sorenson ond mae'n dal i weithredu fel fenter ei hun.

yn effeithio ar allu defnyddwyr byddar Iaith Arwyddion Prydain i gael gafael ar gyfathrebiadau brys. Ond, mae'n galonogol gweld bod SLI wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r heriau hyn.

Canfuwyd bod y diwydiant o blaid rheoleiddio gwasanaethau cyfnewid fideo brys, a'u bod, ar y cyfan, yn cydnabod nad yw'r rheoleiddio hwn yn cael effaith anghymesur ar eu busnes. Nodwyd bod y diwydiant wedi codi rhai pryderon am eu profiadau nhw o'r ffordd cafodd y rheoleiddio ei roi ar waith.